**Bwyd mamolion bach**

**Nodiadau'r myfyriwr**

**Cynnwys**

Bydd yr uned hon yn eich helpu i ddeall pa fath o fwydydd sy'n addas ar gyfer mamolion bach.

Er mwyn cael y gorau allan o'r sesiwn hon, gallech ddarllen yr adran 'cwestiynau i'w hateb', sy'n cyd-fynd â'r clip ffilm y byddwch yn ei gwylio. Yna defnyddiwch y clip ffilm i'ch helpu i ddod o hyd i'r atebion, a chwblhewch 'Tasgau i'w gwneud' cyn eich bod yn symud ymlaen i'r clip nesaf.

**Nod y sesiwn yw . . .**

Dangos anghenion bwyd mamolion bach.

**Amcanion – Erbyn diwedd y sesiwn hon byddwch yn medru:**

- Nodi bwyd addas ar gyfer mamolion bach.
- Sefydlu pa grwpiau o fwydydd mae pob bwyd yn ei ddarparu.
- Sefydlu pa fwydydd sy'n dderbyniol.
- Adnabod pwysigrwydd maint.
- Trafod dulliau o gyflwyno.

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

| ***Bwyd*** | | |
|---|---|---|
| Clip Ffilm | Cwestiynau i'w hateb (wrth wylio) | Tasgau i'w gwneud (ar ôl gwylio) |
| Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Bwydydd derbyniol | Pa fwyd a ellir ei roi?<br>Pa gynhwysion unigol sydd mewn bwyd cymysg cnofil?<br>Pa grwpiau o fwydydd a ddarperir?<br>Pa grwpiau o fwydydd sydd rhaid eu bwydo'n ofalus a Pham? | Pa fwydydd sy'n cynnwys carbohydrad? Pa ddefnydd a wneir ohono yng nghorff yr anifail?<br><br>Pa fwydydd sy'n cynnwys protein? Pa ddefnydd a wneir ohono yng nghorff yr anifail?<br><br>Pa fwydydd sy'n cynnwys lipid (braster)? Pa ddefnydd a wneir ohono yng nghorff yr anifail?<br><br>Pam fod dŵr yn bwysig? |
| Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Meintiau | Pa faint sydd ei angen?<br>Pa ffactorau sy'n rheoli'r maint sydd yn cael ei roi?<br>Sut mae'r bwyd yn cael ei feintioli a'i fesur?<br>Pa faint sydd ei angen fel arfer? | Gwnewch ymchwil annibynnol i nodi meintiau addas o fwyd ar gyfer amrediad o anifeiliaid.<br><br>Pam mae mor bwysig peidio â gorfwydo?<br><br>Sut mae oed, rhyw, statws atgynhyrchu a chynnyrch yn medru effeithio ar faint o fwyd a roir?<br>. |

<table>
<tr><td>Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Cyflwyniad</td><td>Beth yw’r opsiynau ar gyfer cyflwyno bwyd?<br>Beth yw’r opsiynau ar gyfer cyflwyno dŵr?</td><td>Nodwch ddulliau o gyflwyno bwyd i greu cyfoethogiad.<br><br>Trafodwch fanteision, anfanteision ac addasrwydd gwahanol lestri bwydo a dyfrhau.<br><br>Dyluniwch a chynhyrchwch weithgaredd cyfoethogiad trwy ddefnyddio  bwyd – os yn bosib gwneud y weithgaredd cyfoethogiad, cofnodwch yr effaith ar ymddygiad.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynhwysir tasg Ryngweithiol yn y pecyn hwn –<br><br>Medrwch baru’r grwpiau bwyd i’r eitem fwyd priodol.  Nodwch pa ddefnydd a wneir o bob grŵp bwyd.<br><br>Cwblhewch y dasg asesu risg rhyngweithiol trwy’r linc a ddarperir.<br>.</td></tr>
</table>

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD